



GRANT CYNNAL CANOL TREFI

CYFARWYDDYD

I ofyn am ffurflen gais anfonwch e-bost gyda'ch enw busnes a'ch cyfeiriad masnachu llawn at;

✉ [**adfywio@rctcbc.gov.uk**](mailto:adfywio@rctcbc.gov.uk)

GRANT CYNNAL CANOL TREFI CYFARWYDDYD

Beth yw Grant Cynnal Canol Trefi?

Bydd y Grant Cynnal Canol Trefi yn darparu cefnogaeth ar gyfer mân welliannau a gwaith cynnal a chadw a fydd yn gwella edrychiad allanol eiddo canol trefi, a sy'n hwyluso ymbellhau cymdeithasol. Disgwylir i'r cynllun gyfrannu at effaith er gwell ar olwg y strydoedd, gan esgor ar amgylchedd canol tref mwy deniadol, bywiog a mwy diogel, a chynyddu'r gwariant mewn siopau a meithrin rhagor o fuddsoddi o du'r sector preifat.

Gwahoddir ceisiadau gan fasnachwyr canol trefi a pherchnogion eiddo gwag yn ardaloedd manwerthu Aberpennar, Aberdâr, Treorci, Tonypany, Y Porth a Glynrhedynog.

Bydd angen gwneud cynigion yn unol ag unrhyw ganiatâd(au) statudol gofynnol.

Beth mae'r Rhaglen yn gallu'i ariannu?

Rhaid i'r gwaith gael ei wneud gan gontractwr cydnabyddedig, a gall gynnwys:

- Paentio (lliw i'w gytuno)
- Atgyweirio, ail-osod a glanhau gwaith maen neu rendr
- Atgyweiriadau i wydr, drysau, wynebau siopau
- Atgyweirio neu adfer nwyddau dŵr glaw
- Atgyweirio neu osod arwyddion (nid arwyddion â golau)
- Rhoi gorchudd powdr ar ddrysau rholer sydd yn barod mewn lle
- Addasiadau siop ar raddfa fach i hwyluso ymbellhau cymdeithasol

Gall y grant gyfrannu 75% tuag at gost y gwaith cymwys hyd at uchafswm grant gwerth £1,000.

Os bydd angen i chi godi sgaffald neu logi sgip i ymgymryd â'r gwaith, gall y cynllun grant roi cyfraniad ychwanegol tuag at y costau penodol yma. Bydd hyn hefyd yn uchafswm o gyfraniad o 75% hyd at uchafswm grant ychwanegol o £300.

Dydy costau ar gyfer gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud neu ei gwblhau a ffioedd am ganiatadau statudol e.e. caniatâd cynllunio **ddim** yn gymwys.

Sut ydw i'n cyflwyno cais?

Llenwch y ffurflen gais gan ofalu eich bod chi'n cyflwyno'r holl dystiolaeth yn gefn i'ch cais:

Cyhyd â bod cyllid ar gael, dyma gynllun dreigl felly does dim dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cais. Byddwn ni'n asesu ar drefn y cyntaf i'r felin.

Mae croeso i ymgeiswyr blaenorol wneud cais am gynnig newydd.

Sut byddwch yn prosesu fy nghais?

Bydd eich cais yn destun gwiriad dilysu i sicrhau eich bod wedi cyflwyno'r holl wybodaeth gywir.

Os na ellir dilysu eich cais, caiff ei ddychwelyd atoch yn egluro pam na ellir ei symud ymlaen ar hyn o bryd. Mae croeso i chi ailgyflwyno eich cais pan fyddwch yn gallu darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Os caiff eich cais ei ddilysu, caiff ei asesu a byddwch yn cael gwybod am y canlyniad.

Os bydd yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr gyda manylion y grant a'i delerau ac amodau. Os hoffech dderbyn y grant bydd angen i chi lofnodi a dychwelyd y telerau a'r amodau.

Nid oes sicrwydd y bydd pob cais yn llwyddiannus.

Sut bydd y grant yn cael ei dalu?

Fel arfer, dim ond ar ddiwedd eich prosiect y gwneir taliadau ar ôl cyflwyno'r canlynol;

- anfonebau
- datganiadau banc i ddangos tystiolaeth o daliadau I gyflenwr/gontractwr
- cadarnhad o unrhyw gydsyniadau statudol e.e. caniatâd cynllunio (os yw'n berthnasol)
- tystiolaeth ffotograffig o'r gwaith wedi'i gwblhau

Fel arfer dim ond ar y gost isaf y gwneir taliad, ai pris gwreiddiol y dyfynbris neu bris terfynol yr anfoneb.

